**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | B Hopkins | O G James |
| L R Jones | M A Langstone | M B Lewis |
| S Pritchard | D W W Thomas | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth Addysg |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): F M Gordon

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 2 Medi ac 1 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

3 **Cynllun Gwaith 2020/2021 Trafodaethau.**

Dywedodd y Cadeirydd, fel a drafodwyd eisoes gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi, fod angen archwilio effaith COVID-19 ar addysg pobl ifanc yn y dyfodol. Bydd opsiynau dysgu cyfunol ac yn enwedig defnydd ac argaeledd cyfarpar TGCh a mynediad at y rhyngrwyd yn fater hanfodol yn y dyfodol oherwydd y tebygolrwydd y bydd rhagor o darfu ar ddarpariaeth addysg yn y dyfodol oherwydd y pandemig.

Dywedodd fod y diweddariad a ddarparwyd ym mis Medi wedi amlinellu'r camau breision a gymerwyd mewn cyfnod byr gan yr adran addysg wrth ddatblygu a darparu cyfleoedd dysgu i bobl ifanc ar draws y ddinas yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf.

Rhoddodd Helen Morgan-Rees ddiweddariad llafar byr ar y ddwy brif elfen allweddol yr oedd yr Adran wedi gweithio tuag atynt i ddechrau yn y Cynllun Parhad Dysgu a'r Cynllun Dychwelyd yn Ddiogel i'r Ysgol.
Mae'r olaf wedi'i gwblhau'n llwyddiannus a bydd y grŵp tasg a gorffen a ffurfiwyd i oruchwylio a monitro'r mater yn cwrdd ar gyfer ei gyfarfod olaf ddechrau mis Rhagfyr.

Amlinellwyd y gwahanol heriau sy'n deillio o COVID-19 ac amlinellwyd i'r pwyllgor y gwahanol ffyrdd cyfunol/o bell/cydamserol o gyflwyno gwaith a gwersi i ddisgyblion.

Mae cysondeb ac ansawdd dysgu yn fater allweddol yn ogystal â'r angen i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu heithrio rhag dysgu gartref oherwydd diffyg caledwedd TGCh neu broblemau cysylltedd â'r rhyngrwyd.

Dywedodd fod yr adran mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner, ac yn ddiweddar mae wedi cael adborth cynnar ar arfer da gan Estyn yn dilyn eu harolwg o ysgolion.

Mae enghreifftiau o arfer da ar gael ac mae angen eu rhannu, eu dosbarthu a'u hyrwyddo mor eang â phosib.

Amlinellodd y Cynghorydd J A Raynor, Aelod y Cabinet dros Addysg, Dysgu a Sgiliau fod yr adran wedi gwneud cynnydd rhagorol a chyflym o ran datblygu a chyflwyno'r gwasanaeth dysgu cyfunol yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, a oedd yn cynnwys gwersi rhithwir a dysgu gartref trwy ddeunyddiau wedi'u hargraffu a ddosbarthwyd gan ysgolion.

Byddai angen adolygiad o'r ddarpariaeth ddysgu gyfunol yn y dyfodol, yn ogystal â'r angen i sicrhau nad yw'r holl bobl ifanc yn cael eu heithrio yn ddigidol a bod ganddynt ddyfeisiau priodol i'w galluogi i gwblhau eu llwyth gwaith gartref, a bod ganddynt gysylltiad rhyngrwyd angenrheidiol.

Amlinellwyd hefyd yr angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant ychwanegol i athrawon a staff ysgolion er mwyn sicrhau darpariaeth addysg barhaus ac o ansawdd fel maes i'w adolygu.

Trafododd aelodau'r pwyllgor y materion a godwyd uchod a gofynnwyd cwestiynau amrywiol i'r Swyddog a'r Aelod Cabinet a ymatebodd yn briodol.

Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r pedwar maes canlynol fod yn sail i adolygiad y pwyllgor o'r ddarpariaeth adolygu gyfunol bresennol yn Abertawe,

- mynediad at gyfleoedd dysgu;
- ymagweddau a ddefnyddiwyd a'r arferion gorau a ddatblygwyd;
- dysgu proffesiynol;
- safbwyntiau dysgwyr.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) cymeradwyo dysgu cyfunol fel pwnc i'w archwilio a'i adolygu gan y Pwyllgor Datblygu Polisi.
2) cyflwyno adroddiad diweddaru ar y ddarpariaeth bresennol o ddysgu cyfunol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Polisi ar 9 Rhagfyr 2020.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.30 pm

**Cadeirydd**